# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2016

Amser: 08.30 - 08.36

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Melding (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd. Yn ei habsenoldeb, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Ddydd Mawrth, byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad am Fil Cymru drafft.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes dydd Mawrth yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau, a chytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai Cyfnod Pleidleisio dydd Mercher yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i aildrefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 9 Mawrth 2016 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Dyfodol ynni craffach i Gymru? (60 munud)~~ – *symudwyd i 16 Mawrth*

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 16 Mawrth 2016 –**

- Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau (5 munud)

## 3.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y Llywydd ynghylch Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad 'Dyfodol ynni craffach i Gymru?'

Derbyniodd y Pwyllgor gais gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r ddadl ar yr adroddiad 'Doethach Dyfodol Ynni i Gymru' gael ei gohirio am wythnos, o 9 Mawrth i 16 Mawrth.